Hawliau Datblygu a Ganiateir ychwanegol a gynigir ar gyfer Gweithredwyr Cod Cyfathrebiadau Electronig
Cyfeirnod yr Ymgynghoriad: WG 17476

# Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad: Hawliau datblygu a ganiateir ychwanegol a gynigir ar gyfer Gweithredwyr Cod

Rydym eisiau'ch barn ar ein cynigion ynglŷn ag addasiadau arfaethedig (diwygiadau neu ychwanegiadau) i'r hawliau datblygu a ganiateir presennol a nodir yn Rhan 24 o "Datblygiadau gan Weithredwyr Cod Cyfathrebiadau Electronig (Cymru)". Gofynnir i chi roi'ch barn ar ddrafft Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd.

***Anfonwch eich sylwadau erbyn 31 Hydref 2013.***

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, e-bostiwch planconsultations- e@wales.gsi.gov.uk
neu ffoniwch N Butler ar 029 2082 3585.

| Diogelu Data |
|---|
| Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y cyfeirir atynt yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb.<br><br>Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth. |

Hawliau Datblygu a Ganiateir ychwanegol a gynigir ar gyfer Gweithredwyr Cod Cyfathrebiadau Electronig
Cyfeirnod yr Ymgynghoriad: WG 17476

| Ymgynghoriad ar Hawliau Datblygu a Ganiateir ychwanegol a | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad y cyfnod ymgynghori: 29 Gorffennaf 2013 i 31 Hydref 2013** | | |
| **Enw** | Dr Maggie Hill | |
| **Sefydliad** | Cyfoeth Naturiol Cymru | |
| **Cyfeiriad** | Tŷ Ladywell<br>Y Drenewydd<br>SY16 1RD | |
| **E-bost** | Maggie.Hill@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk | |
| **Math** *(dewiswch un o'r canlynol)* | Ymgynghorwyr Busnes/Cynllunio | ☐ |
| | Awdurdod Cynllunio Lleol | ☐ |
| | Asiantaeth y Llywodraeth/Sector Cyhoeddus Arall | x |
| | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant | ☐ |
| | Sector Gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, mentrau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, sefydliadau crefyddol a sefydliadau nad ydynt | ☐ |
| | Arall (grwpiau eraill nad ydynt wedi eu rhestru uchod) neu unigolyn | ☐ |

| **C1** | Ydych chi'n cytuno y dylai'r gweithdrefnau ymgynghori a ddisgrifir yn a) i c) o baragraff 5.8 uchod, fod yn ofyniad statudol sylfaenol yng Nghymru? | Dylai | Dylai (yn amodol ar sylw pellach) | Na ddylai |
|---|---|---|---|---|
| | | | | x |

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu cyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf ledled Cymru. Credwn ei bod yn hanfodol ac yn ymarferol cyflawni hyn yn raddol gan leihau effeithiau niweidiol posibl ar dreftadaeth naturiol Cymru. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod effeithiau niweidiol posibl ar ddibenion Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cael eu hystyried yn iawn wrth feddwl datblygiadau a sut maent yn edrych.

Mae'r broses caniatâd ymlaen llaw Rhan 24, A.2(4)(a)(dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995) yn galluogi awdurdodau cynllunio i reoli lleoliad cynigion datblygu o fewn tirweddau gwarchodedig a sut maent yn edrych.

Mae hyn yn amod bwysig gan fod Penderfyniadau Apêl diweddar yn pwysleisio sut gall strwythurau fertigol bychain hyd yn oed gael effaith sylweddol ar ddibenion tirweddau gwarchodedig. Ceir enghraifft o hyn ym mhenderfyniad yr Arolygydd (APP/PP9502/A/07/2047339) i wrthod apêl am felin wynt 3-llafn arfaethedig

wedi'i chysylltu ar ben polyn metel cynhaliol 11m o uchder. Credai'r Arolygydd na fyddai lleoliad y datblygiad arfaethedig na sut y byddai'n edrych yn parchu tirwedd y rhan hon o'r Parc Cenedlaethol.

Tra gall effeithiau cynnig o'r fath fod yn wahanol i effeithiau strwythur sefydlog, mae penderfyniad yr Arolygydd yn dangos y gall strwythurau fertigol bychain o'r fath, wedi'u lleoli'n anaddas, gael effaith andwyol sylweddol ar dirweddau gwarchodedig.

Nodwn fod y gweithdrefnau ymgynghori arfaethedig sydd i ddisodli'r broses caniatâd ymlaen llaw bresennol, fel y'i hamlinellir ym mharagraff 5.8 y ddogfen ymgynghori, yn ei gwneud hi'n bosibl i awdurdodau cynllunio lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno sylwadau. Er bod angen i ddatblygwyr 'ystyried' y sylwadau hyn, nid yw'n glir sut byddai datblygwyr yn ystyried pryderon a godwyd gan naill ai'r awdurdod cynllunio lleol neu Cyfoeth Naturiol Cymru, ac a fyddai angen i ddatblygwyr ymateb i unrhyw bryderon a godwyd yn y sylwadau hyn.

Mae gennym bryderon y byddai sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r awdurdod cynllunio lleol a fyddai heb eu hystyried yn llawn yn arwain o bosibl at ddatblygiad nad yw'n gweddu neu sy'n anaddas i'w leoliad.

Credwn felly y dylai'r broses caniatâd ymlaen llaw cael ei chadw ar gyfer datblygiadau arfaethedig o fewn y Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

| C2 | Allech chi awgrymu unrhyw amodau cyffredinol eraill a allai gael eu gosod hefyd? | Gallaf ☐ | Gallaf (yn amodol ar sylw pellach) | Na allaf ☐ |
|---|---|---|---|---|
| | | | x | |

Er ein pryderon a nodir yn ein hateb i C1 uchod, pe cyflwynir y gweithdrefnau ymgynghori arfaethedig newydd, rydym yn argymell y newidiadau canlynol i'r amodau:

(i) Efallai na fyddai'r defnydd o'r lliw gwyrdd yn yr amod cyntaf yn briodol ym mhob lleoliad. Er enghraifft, byddai brown tywyll neu lwyd tywyll o bosibl yn fwy addas mewn rhai amgylcheddau hanesyddol. Hefyd, efallai y byddai'r defnydd o liw gwyrdd tywyll yn amhriodol.

Yn hytrach, awgrymwn y dylid defnyddio lliw gwannach, sy'n briodol i'r lleoliad, er mwyn lleihau amlygrwydd gweledol y cyfarpar. Rydym felly'n argymell bod yr amod cyntaf yn cael ei newid i: "Lliw y cabinetau i gael ei gytuno'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol".

(ii) Awgrymwn fod y canlynol yn cael ei gynnwys fel amod ychwanegol:

“Dylai lleoliad y polyn neu’r strwythur cynhaliol gael ei gytuno’n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol”.

| C3 | Ydych chi'n cytuno y dylai’r trefniant cynllunio defnydd tir “llwybr carlam” a ddisgrifir uchod fod yn gymwys ar gyfer y cyfnod dros dro a ddisgrifir ym mharagraff 5.9? | Dylai | Dylai (yn amodol ar sylw pellach) | Na ddylai |
|---|---|---|---|---|
| | | | | x |

Rydym yn croesawu ac yn cefnogi’r bwriad i hepgor Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig o’r trefniadau newydd arfaethedig.

Serch hynny, rydym yn pryderu ynglŷn â’r bwriad i ddiddymu’r broses caniatâd ymlaen llaw mewn perthynas â chynigion datblygu o fewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Nodwn fod gweithdrefnau ymgynghori arfaethedig a amlinellir ym mharagraff 5.8 y ddogfen ymgynghori yn rhoi’r cyfle i awdurdodau cynllunio lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno eu sylwadau. Serch hynny, mae gennym bryderon y gall peidio â rhoi sylw llawn i sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu’r awdurdodau cynllunio lleol arwain at ddatblygiad nad yw’n gweddu neu sy’n anaddas i’w leoliad.

Credwn felly y dylai’r broses caniatâd ymlaen llaw gael ei chadw ar gyfer cynigion datblygu o fewn y Parciau Cenedlaethol neu AHNE.

Er ein pryder uchod, rydym yn argymell y dylai unrhyw ganllawiau a gynhyrchir sy’n cefnogi’r newidiadau arfaethedig i hawliau datblygu a ganiateir hyrwyddo manteision datblygu dull gofodol strategol, yn genedlaethol ac yn lleol, er mwyn nodi’r lleoliadau mwyaf addas ar gyfer datblygiadau. Mae’r adolygiad sydd ar fin ei gynnal o gynlluniau rheoli Parciau Cenedlaethol ac AHNE yn gyfle i weithredwyr ac awdurdodau ddatblygu dull strategol o fewn yr ardaloedd hynny, a fframwaith o’u mewn sy’n hwyluso cyfraniad gan y cyhoedd.

| C4 | Ydych chi'n cytuno y dylai'r trothwy presennol am ganiatâd ymlaen llaw ar gyfer rhoi antena ar adeiladau a strwythurau gael ei gynyddu o 4 metr i 6 metr? | Ydw | Dylai (yn amodol ar sylw pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | x | | |

Dim sylw.

| | |
|---|---|
| | A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno hawl datblygu a ganiateir newydd yn benodol ar gyfer gosod nifer cyfyngedig o antenau ffôn symudol bychain hyd at 0.5 metr? |

Nid ydym yn gwrthwynebu ymestyn yr hawl datblygu a ganiateir ar gyfer gosod nifer cyfyngedig o antenau ffôn symudol bychain hyd at 0.5m, yn amodol ar y meini prawf ym mharagraff 5.20 (Cynigion C) y ddogfen ymgynghori.

Awgrymwn hefyd y dylai unrhyw ddatblygiad ar waliau adeiladau neu strwythurau mewn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig fod yn amodol ar y broses caniatâd ymlaen llaw.

| | | Ydw | Dylai (yn amodol ar sylw pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| **C6** | Ydych chi'n meddwl y dylai terfynau dimensiynol eraill neu gyfyngiadau gosod eraill fod yn gymwys i antena ffôn symudol bychain o'r fath? Rhowch resymau | | x | |

Gweler ein sylwadau ar gyfer Cwestiwn 5 uchod.

| | | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylw pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| **C7** | Ydych chi'n cytuno y dylai'r trothwy ar gyfer cyfanswm diamedr dysgl gael ei gynyddu fel y cynigir ym mharagraff 5.27 uchod ? | x | | |

Nid ydym yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i'r cyfanswm diamedr dysgl fel y nodir ym mharagraff 5.27 y ddogfen ymgynghori.

| | | Ydw | Dylai (yn amodol ar sylw pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| **C8** | Ydych chi'n meddwl y dylai unrhyw gyfyngiadau gosod ychwanegol fod yn gymwys i unrhyw fath o antena ychwanegol? | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | x | |

Rydym yn cydnabod y byddai'n aml yn well lleoli antena newydd ar adeilad neu strwythur sydd eisoes yn sefyll i osgoi effeithiau gweledol ychwanegol. Er hynny, gall gosod nifer helaeth o antenau hefyd arwain at ddatblygiad anaddas.

Rydym felly yn argymell bod y newidiadau arfaethedig yn cynnwys gofyniad penodol i ddatblygwyr wneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol er mwyn penderfynu a fyddai angen caniatâd ymlaen llaw gan yr awdurdod o ran lleoliad y datblygiad ac o ran sut byddai'n edrych.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C9** | Ydych chi'n meddwl y dylai unrhyw gyfyngiadau gosod ychwanegol fod yn gymwys i unrhyw fath o antena ychwanegol? | Ydw | Dylai (yn amodol ar sylw pellach) | Nac ydw |
| | | | x | |

Fel y nodir yn ein hateb i C1 uchod, mae Penderfyniadau Apêl ddiweddar yn pwysleisio sut gall strwythurau fertigol bychain gael effaith sylweddol ar ddibenion tirweddau gwarchodedig. Os penderfynir ymestyn hawliau datblygu a ganiateir i fastiau dros 15 metr o uchder, ni ddylai'r ddarpariaeth hon ymestyn i gynnwys cynigion o fewn tirweddau gwarchodedig.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C10** | Ydych chi'n gefnogol i roi terfyn amser ar Gynigion A - F yn y papur hwn tan 31/12/17? Os nad ydych chi'n gefnogol, ydych chi'n ffafrio cyfnod byrrach neu gyfnod hirach? | Dylai | Dylai (yn amodol ar sylw pellach) | Na ddylai |
| | | | | x |

Gweler ein hateb i C1 uchod.

Os penderfynir cyflwyno'r newidiadau arfaethedig, nid ydym o'r farn fod yna dystiolaeth yn y ddogfen ymgynghori hon sy'n dangos pam y dylid ymestyn y terfyn amser y tu hwnt i 31/12/17.

| | |
|---|---|
| **Q11** | Oes gennych chi dystiolaeth bod unrhyw un o'r materion penodol a nodir yn Atodiad 1 yn faterion pwysig yng Nghymru? |

| |
|---|
| Dim sylw |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C12** | Ydych chi'n cytuno y dylai'r cyfeiriadau diweddaraf am y Cod fod ar gael trwy wefan Llywodraeth Cymru? | Cytuno | Cytuno (yn amodol ar sylw pellach) | Anghytuno |
| | | | | |
| Dim sylw. | | | | |

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C13** | Oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn Atodiad 2? | Oes | Na |
| | | x | ☐ |

Mae paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AER) ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn i'w groesawu. Er hyn, bras fanylion sydd yn yr AER ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol posibl, er enghraifft effeithiau ar dirwedd. Er ein bod yn nodi effaith y cynigion ar gynaliadwyedd cymdeithasol ac economaidd Cymru wledig fel y nodir ym mharagraff 3.3 yr AER, dylai asesiad o ddatblygu cynaliadwy hefyd ystyried a nodi effeithiau amgylcheddol posib. Byddai'r dull yn unol â'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy fel y gwelir yn Ffigur 4.1 Polisi Cynllunio Cymru (5ed Argraffiad, 2012) a dyletswyddau Llywodraeth Cymru o ran: Datblygu Cynaliadwy a dibenion Parciau Cenedlaethol ac AHNE. Gallai'r Gangen Natur, Tirwedd a Hamdden Awyr Agored o fewn Llywodraeth Cymru ddarparu cyngor pellach ar y mater hwn.

## Cyffredinol

| | |
|---|---|
| C14 | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nag ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w cofnodi: |
| Dim | |

# Atodiad 3



| |
|---|
| Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb cael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch yma ☐ |

**Sut i ymateb**

**Cyflwynwch eich sylwadau mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:**

| **E-bost** |
|---|
| Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon at y cyfeiriad isod:<br>planconsultations-e@cymru.gsi.gov.uk<br>(Rhowch 'Ymgynghoriad ar Hawliau Datblygu a Ganiateir ychwanegol a gynigir ar gyfer Gweithredwyr Cod – WG-17476' yn llinell pwnc y neges). |
| **Post** |
| Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:<br>**Ymgynghoriad ar Hawliau Datblygu a Ganiateir ychwanegol a gynigir ar gyfer Gweithredwyr Cod**<br>**Yr Isadran Cynllunio**<br>**Llywodraeth Cymru**<br>**Parc Cathays**<br>**Caerdydd**<br>**CF10 3NQ** |
| **Gwybodaeth ychwanegol** |
| Os oes gennych gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn:<br>E-bostiwch: planconsultations-e@cymru.gsi.gov.uk<br><br>Ffoniwch: N Butler ar 029 2082 3585 |